

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2017 No. 1288**

**Gorchymyn Deddf Dŵr 2014 (Cychwyn Rhif 10) 2017**

**Darpariaethau Deddf 2014 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2019**

- 3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2014 i rym ar 1 Ebrill 2019—
- (a) adran 8 (swmpgyflenwi dŵr gan ymgymerywyr dŵr) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;
  - (b) adran 9 (prif gysylltiadau â systemau carthffosiaeth);
  - (c) adran 10 (cytundebau gan ymgymerywyr dŵr i fabwysiadu seilwaith) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym; a
  - (d) adran 11 (cytundebau gan ymgymerywyr carthffosiaeth i fabwysiadu seilwaith) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.